TAFLEN BENDERFYNIAD
Dyddiad 20/11/07

PWNC **(Eitem 5)**
Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir er lles addysg holl blant Gwynedd

PENDERFYNIAD:-

Argymell i'r Cyngor llawn
(a) Cymeradwyo mewn egwyddor, nod, amcanion a phrif strategaeth y Cynllun a sicrhau bod ymgynghoriad trylwyr yn digwydd gydag aelodau etholedig, penaethiaid/athrawon, rhieni a llywodraethwyr cyn gweithredu'r cynigion ar gyfer yr ysgolion hynny yng Nghategori A o'r Cynllun Cyfansawdd.
(b) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Strategol Datblygu i gyflwyno adroddiad terfynol ar y cynigion mewn perthynas ag ysgolion a restrir yng Nghategori A ym mis Mehefin/Gorffennaf 2008 yn dilyn y cyfnod ymgynghori.
(c) Cymeradwyo, fel sail cynllunio, rhestr Categori B a C yn y Cynllun Cyfansawdd, a chynnal y cyfnodau ymgynghori yn unol â'r amserlen a amlinellir yn yr adroddiad.
(ch) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Strategol Datblygu, mewn ymgynghoriad â'r Arweinyddion Portffolio perthnasol, i roi cynllun ymgynghori manwl yn ei le fydd yn sicrhau amser digonol ar gyfer cynnal y drafodaeth gyhoeddus ar strategaeth y cynllun a'r cynigion unigol - gan adrodd ar y mater i gyfarfod o'r Cyngor ar y 13 Ragfyr, 2007
(d) Awdurododi ymgymryd ag asesiad ardrawiad ieithyddol a chymdeithasol ymhob ardal i'w gynnwys fel rhan o'r adroddiad.

Rhesymau dros y penderfyniad:-

Mae angen ad-drefnu ysgolion y sir oherwydd lleihad yn nifer y plant; cyfartaledd maint ysgolion yn isel; prinder penaethiaid, pwysau gwaith a diffyg strwythur gyrfa; cyflwr gwael ac anaddasrwydd adeiladau; amrywiaeth sylweddol yng nghost y pen; defnydd isel o ysgolion; amrywiaeth sylweddol ym maint dosbarthiadau yn ogystal â rhesymau ariannol.

Mae newidiadau radical yn angenrheidiol i'r drefn bresennol er mwyn cynnal safon addysg uchel ar draws y sir a sicrhau fod pob disgybl yn derbyn y cyfloedd gorau, yn ogystal â gwneud gwell defnydd o'r adnoddau sydd yn y gyfundrefn ar hyn o bryd.

Ceisiwyd cymeradwyaeth y Bwrdd i benderfyniadau'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ac i argymell i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r ddogfen fel sail ar gyfer ymgynghori cychwynnol er mwyn sefydlu model newydd fydd yn gynaladwy i'r dyfodol ac yn gosod seiliau cadarn ar gyfer addysg gynradd drwy'r sir.

Cafwyd cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Strategol Datblygu.

Rhoddwyd braslun o'r cefndir a'r llwybr gweithredu ers sefydlu Gweithgor yn 2004 i edrych ar gynaladwyedd y sefyllfa. Cyfeiriwyd at yr angen i ymateb i feirniadaeth ESTYN am beidio â rhoi sylw digonol i drefniadaeth ysgolion a lleihau llefydd gweigion a'r angen i lunio cynllun cadarn ar gyfer cyflwyno addysg o ansawdd uchel i holl blant y sir. Eglurwyd bod newidiadau demograffeg ac ymarferiadau cyffelyb yn digwydd ledled Prydain a Chymru.

Manylodd ar yr angen dybryd i newid y drefn oherwydd lleihad yn nifer plant. Eglurodd bod rhai dalgylchoedd cynradd wedi wynebu lleihad o dros 15%, a bod cyfartaledd maint ysgolion yng Ngwynedd yn isel sef 94 o gymharu â 172 yng Nghymru. Hefyd roedd recriwtio Penaethiaid yn anos ac roedd gan Wynedd 100 o Benaethiaid, sef llawer mwy nag unrhyw sir arall yng Nghymru. Gan hynny, pwysleisiwyd bod y patrwm presennol yn anghynaladwy ac na ellid ei gyfiawnhau i'r dyfodol

Ymhellach cyfeiriwyd at y ffaith bod Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd Gwynedd wedi nodi bod pwysau sylweddol ar Benaethiaid oherwydd diffyg amser digyswllt, a bod angen i drefn newydd ymgorffori strwythur fyddai'n meithrin unigolion mewn swyddi rheolaethol ac arweiniol.

Nodwyd y byddai angen buddsoddiad sylweddol o £6.64m i uwchraddio cyflwr ysgolion y Sir a phwysleisiwyd y gwahaniaeth mawr mewn gwariant y pen o rhwng £10,444 a £2,125. Yn ogystal rhagwelir y bydd 23 o ysgolion â lefel defnydd o lai na 50% erbyn 2014, a bod hyn yn annerbyniol o safbwynt gwneud y defnydd gorau o adnoddau ar gyfer addysg plant y sir.

Pwysleisiwyd mai nod y cynllun oedd "datblygu ysgolion cymunedol a chynaladwy", a'r prif amcanion oedd sicrhau gwell defnydd o adnoddau; lleihau anghydraddoldeb; hyrwyddo ansawdd a safonau'r addysg a ddarperir; gwell cyfleusterau ac adeiladau addas; datblygu rôl arweiniol Penaethiaid; cynyddu cyfartaledd maint ysgolion ynghyd â datblygu ysgolion cymunedol.

Ystyriwyd cyfuniad o drefniadau gwahanol er mwyn ymateb i sefyllfaoedd lleol o fewn dalgylchoedd gan gynnwys Ysgol Ffederal, Ysgol Ardal, cau rhai ysgolion a pharhad eraill, ac ymhelaethodd ar y gwahanol drefniadau.

Manylwyd ar y niferoedd a effeithir gan y cynllun arfaethedig, sef sefydlu 3 Ysgol Ardal ar safleoedd ysgolion presennol, adeiladu 8 Ysgol Ardal newydd ar safleoedd newydd, sefydlu 18 Ysgol Ffederal ar gyfer 55 ysgol sy'n bodoli ar hyn o bryd gan adael 19 ysgol fel ag y maent. Byddai'n golygu bod nifer o safleoedd ysgolion yn lleihau o 106 i 85. Esboniwyd y byddai hyn yn lleihau'r nifer o ysgolion i 48 (ar 85 safle) gyda 48 Pennaeth Arweiniol corff llywodraethu ac y byddai oddeutu 116 o ddisgyblion fesul safle ar gyfartaledd erbyn 2013.

Ymhelaethwyd ar yr amrywiol drefniadau a'r cynigion drafft.

Cyfeiriwyd at amserlen gweithredu'r cynllun arfaethedig a rhaniad ysgolion i dri chategori sef Categori A , fydd yn derbyn rhybuddion statudol ym Medi 2008; Categori B fydd yn derbyn rhybuddion statudol ym Medi 2009 a Chategori C fydd yn derbyn rhybuddion statudol ym Medi 2011

O safbwynt ariannol, eglurwyd y byddai'r Cynllun arfaethedig yn rhyddhau arbedion blynyddol o £1.4m a gellid ail-fuddsoddi £935,000 o'r arbediad i sicrhau bod gan Benaethiaid amser digyswllt. Yn y tymor hir byddai isafswm arbediad blynyddol oddeutu £509,000. Oherwydd y byddai llai mewn nifer o ysgolion gellid buddsoddi'r arbedion mewn addysg y plant ar draul cynnal a chadw'r adeiladau presennol. Hefyd golygai bod dyraniad y pen yn codi gyda 70% o blant y sir yn elwa o'r strategaeth, a byddai buddsoddiad sylweddol mewn adeiladau newydd.

Cyfeiriodd at y goblygiadau dyrys o beidio gweithredu'r strategaeth.

Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr am ei gyflwyniad.

Sylwadau neu bwyntiau croes:-

Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc
Eglurwyd bod holl aelodau'r Cyngor wedi eu gwahodd i seminar ar y Cynllun, bod y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc wedi ei graffu'n drylwyr, ac wedi cymeradwyo argymhellion y strategaeth.

Yn ychwanegol, pwysleisiodd y pwyllgor bod angen ymgymryd ag asesiad ieithyddol a chymdeithasol ar gyfer y Cynllun. Hefyd roedd eisiau manylion pellach ynglyn â strwythur Ysgolion Ffederal a'r trefniant eglwysig, a nodwyd bod bwriad cyflwyno'r manylion i'r Cyngor llawn yn Rhagfyr. Gofynnodd hefyd am wybodaeth ynglyn â chanlyniadau'r ymgynghori gwreiddiol, a nodwyd bod gwybodaeth fanwl bellach wedi ei osod ar safle we'r Cyngor. Yn ogystal pwysleisiodd bod rhaid sicrhau amser digonol ar gyfer cynnal y drafodaeth gyhoeddus ar y cynigion, a nodwyd

eto bod bwriad cyflwyno manylion i'r Cyngor llawn yn Rhagfyr.

Trafodaeth/Cwestiynau/Sylwadau:-

Rhoddwyd cyfle i aelodau drafod a chwestiynu agweddau o'r strategaeth a chyfeirir isod at y prif ystyriaethau:-

- ***adnabod safleoedd*** - nodwyd nad oedd safleoedd wedi eu hadnabod ar hyn o bryd, ond bwriedir sefydlu Grwp Prosiect ar gyfer adnabod safleoedd a bod swyddogion yn ffyddiog y bydd opsiynau addas ar gael yn yr ardaloedd. Eglurwyd bod rhaid gweithredu o fewn cynlluniau lleol, fodd bynnag, os oedd amgylchiadau'n caniatáu, roedd modd ystyried datblygiad oddi allan i ffiniau datblygu oherwydd bod ysgol ardal yn adnodd cymunedol.

  Roedd aelod o'r farn y dylai rhieni gael gwybodaeth ynglyn â'r safleoedd fel rhan o'r broses ymgynghori, a phwysleisiwyd bwysigrwydd ymgynghori'n drwyadl.

  Cadarnhawyd nad oedd unrhyw fwriad i symud plant o un safle i'r llall.

  Mynegwyd pryder y byddai rhai ysgolion presennol yn cael eu hamddifadu o blant yn sgil rhieni'n symud eu plant i ysgolion eraill oherwydd eu bod yn ofni bod yr ysgolion yn cau.

- ***arbedion*** – pwysleisiwyd mai amcangyfrif oedd yr arbedion o £1.4m ac y gall y ffigwr terfynol fod yn fwy. Eglurwyd y modelwyd y costau ar fformiwla gyfredol cyllido ysgolion, bod oddeutu dau draean o'r £1.4 yn cael ei roi tuag at sefydlu'r penaethiaid lleol, a bod costau trosiannol hefyd ynghlwm;

- ***dyluniad adeiladau*** – cadarnhawyd y bydd rhaid i ddyluniad yr ysgolion newydd fod o safon amgylcheddol uchel er mwyn cael mynediad at grantiau'r Cynulliad;

- ***gorlwytho ysgolion Categori A*** - mewn ymateb i bryderon ynglyn â gorlwytho ysgolion Categori A mewn rhai dalgylchoedd, eglurwyd bod bwriad rhoi ystyriaeth i'r mater wrth roi'r cynllun diwygiedig yn ei le i'w gyflwyno gerbron y Cyngor llawn yn Rhagfyr 2007;

- ***strwythur Ysgol Ffederal*** - eglurwyd bod bwriad cyflwyno gwybodaeth ychwanegol i'r Cyngor, yn unol â dymuniad y pwyllgor craffu;

- ***astudiaeth ardrawiad iaith*** - nodwyd mai cwmni allanol annibynnol fydd yn ymgymryd â'r astudiaeth. Pwysleisiwyd pwysigrwydd rhoi sylw i adnabod cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg yn ogystal â'i gwarchod. Cyfeiriwyd at rôl bwysig y Pennaeth Arweiniol yn y cyd-destun hwn.

  Ymhellach cyfeiriwyd at bryderon ynglyn â rheoli a diogelu cymreictod naturiol rhai ysgolion wrth sefydlu Ysgolion Federal ac Ysgolion Ardal mwy eu maint. Nodwyd bod y pryderon hyn yn gwbl ddealladwy, a phwysleisiwyd ei bod yn bwysig bod yr astudiaeth yn rhoi sylw i'r elfen hon. Yn ogystal eglurwyd bod gwybodaeth ar gael ynglyn â dilyniant ieithyddol plant, a bod angen cadw golwg manwl ar y wybodaeth er mwyn hyrwyddo'r cynnydd - yn y sector gynradd ac uwchradd;

- ***ymestyn cyfnod ymgynghori*** - eglurwyd bod bwriad cyflwyno manylion ynglyn ag ymestyn y cyfnod ymgynghori i'r Cyngor yn Rhagfyr - yn unol â dymuniad y pwyllgor craffu. Hefyd nodwyd bod bwriad trafod yn fuan gyda chyrff lywodraethwyr ysgolion Categori A;

- ***ffynonellau ariannu*** - eglurwyd bod Grantiau Gwella Adeiladau Ysgolion ar gael oddi wrth y Cynulliad tuag at adeiladu ysgolion newydd, a bod cod darbodus y Cyngor yn cynnig cyfle i fuddsoddi mewn adeiladau newydd;

- ***ardaloedd ffyniannus*** – cadarnhawyd bod bwrlwm economaidd a rhagolygon poblogaeth i'r

dyfodol wedi bod yn ystyriaeth wrth ddatblygu'r strategaeth

Barn y swyddogion statudol:-

1. Y Prif Weithredwr:-.

Yn gyntaf mae'n bwysig bod aelodau'n llawn sylweddoli mai argymhelliad i dderbyn y ddogfen fel sail ar gyfer ymgynghori sydd gerbron a hynny'n ymgynghori cyn yr ail gam o ymgynghori'n statudol ymhellach ymlaen.

Fel canlyniad i'r broses ymgynghori cychwynnol ar ôl y Nadolig, rhagwelir bydd y ddogfen ymgynghorol statudol ddilynol wedi'i newid o'i gymharu â beth sydd gerbron heddiw. Ond beth sydd ddim yn newid yw'r raddfa newid sy'n angenrheidiol i wella cynaliadwyedd addysg i holl blant Gwynedd. Mae amharodrwydd y Cyngor i wynebu'r her yn y gorffennol wedi arwain i sefyllfa ble mae angen cymaint o newid heddiw. Rwyf yn cydymdeimlo ac yn gwerthfawrogi bod ganddom gymunedau nad ydynt eisiau newid ac eisiau dal ar beth sydd ganddynt heddiw ond mae pris peidio newid yn rhy uchel yn nhermau cynaliadwyedd addysg holl blant y Sir.

2. Swyddog Monitro:-

Cadarnhaf y bydd angen i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r ddogfen ymgynghorol cyn y gellir cychwyn ymgynghori arni. Bydd penderfyniad y Bwrdd felly yn argymhelliad i'r Cyngor Llawn, yn yr un modd â phenderfyniad y Pwyllgor Craffu. Mae'r cynigion yn y ddogfen yn cynnwys materion lle mae'n rhaid dilyn trefn statudol gaeth a bydd angen sicrhau cydymffurfiaeth hefo'r drefn honno os penderfynir gweithredu ar y cynigion yn dilyn ymgynghoriad.

3. Prif Swyddog Cyllid:-

Mae dadansoddiad manwl o gost y gyfundrefn gyfredol wedi'i ddosbarthu yn y dogfennau 'Cyfrifon Terfynol Ysgolion 2006/07' a 'Cyllideb Ysgolion 2007/08' (dogfennau "Adran 52") a anfonwyd at bob ysgol ac i bob aelod etholedig o'r Cyngor ym Medi 2007. Nid cyllid yn unig sydd wedi gyrru'r agenda ad-drefnu ysgolion cynradd, ond gyda'r niferoedd disgyblion yn disgyn a'r Cyngor yn gorfod torri gwasanaethau dros y 3 blynedd nesaf, mae'n amlwg nad yw'r gyfundrefn gyfredol yn gost-effeithiol nac yn gynaliadwy.

Mae cyfrifwyr yn yr Uned Gyllid Datblygu wedi cyflawni gwaith manwl a chywir i amcangyfrif cost y cynllun, sef costau cau ysgolion ynghyd a chost y datblygiadau arfaethedig, ac mae hynny wedi'i grynhoi, ynghyd a'r holl gyfansymiau allweddol perthnasol, ar dudalen 35 o'r cynllun drafft ymgynghorol ar ad-drefnu ysgolion cynradd y Sir. Cadarnhaf fod ein cyfrifwyr wedi glynu at egwyddorion a ffactorau cyfredol y fformiwla dyrannu bresennol (y fformiwla a ddefnyddiwyd yn 2007/08 ar gyfer cyfrifo'r symiau i'w dyrannu i gyllidebau dirprwyedig ysgolion unigol) wrth amcangyfrif cost y cynllun arfaethedig.

Wedi gweithredu'r cynllun arfaethedig llawn byddai'r amrediad gwariant y pen yn culhau i fod rhwng £2,481 a £5,002 - o'i gymharu â'r amrediad eang presennol sydd rhwng £2,452 a £11,959 (ac yn anodd ei gyfiawnhau). Ymhellach, byddai dyraniad y pen 70% o ddisgyblion ysgolion cynradd Gwynedd yn cynyddu o dan y drefn arfaethedig; a tra byddai cost uned y 30% arall yn gostwng, byddai dyraniad y pen y mwyafrif o'r disgyblion rheiny yn parhau i fod uwchben y cyfartaledd sirol.

Barn yr aelod lleol:-

Ddim yn fater lleol